

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-16-08)

SLC166

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

Teitl:

Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008

Diwygir Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru o 1 Awst 2008 ymlaen. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith gyfreithiol i'r rhaglenni astudio, **sy'n gosod yr hyn y dylid ei addysgu i ddisgyblion a thargedau cyrhaeddiad ar eu cyfer.**

Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau canlynol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

1. Nid yw'r darpariaethau cychwyn sydd wedi'u cynnwys yn nhestun Cymraeg erthygl 1(1) yn cychwyn erthygl 15(2), sydd wedi'u cynnwys yn y testun Saesneg. Felly nid yw'n eglur a yw'r ddarpariaeth hon wedi'i chychwyn ai peidio. Dylid cywiro'r diffyg hwn cyn gynted â phosibl. [Rheol Sefydlog 15.2 vi a vii]

2. Mae testun Cymraeg yr erthyglau, 4(2), 5(2), 6(2), 7(2), 8(2), 9(2), 10(2), 11(2), 12(2), 13(2), 14(2) a 15(3), sydd oll yn ailadrodd yr un camgymeriad, yn ddiffygiol. Diben y testun yw rhoi effaith i ddarpariaethau sy'n nodi'r targedau cyrhaeddiad a'r rhaglenni astudio mewn perthynas â gwahanol bynciau ysgol. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid yw geiriad y testun Cymraeg yn cyflawni'i amcan, ac nid yw'n cyfateb yn union i'r testun Saesneg, oherwydd hepgor geiriad hanfodol bwysig ar ddechrau pob erthygl. Gellir goresgyn y broblem hon drwy roi "Mae'r" yn lle "Y" ar ddechrau pob erthygl. Argymhellir bod y diffyg hwn yn cael ei gywiro ar y cyfle cyntaf posibl. [Rheol Sefydlog 15.2 vi a vii]

3. Nid yw'r testun Cymraeg mewn cromfachau yn erthyglau 4(3), 5(3), 6(3), 7(3), 8(3), 9(3), 10(3), 11(3), 12(3), 13(3), 14(3) a 15(4) yn gyson â thestun y fersiwn Saesneg. Ceisia'r testun esbonio diben esiamplau a argraffwyd mewn print italig o fewn dogfennau'n ymwneud â gwahanol bynciau ysgol. Yn Saesneg mae'r testun yn nodi bod yr esiamplau "... serve to illustrate the programmes of study described therein)", tra bod y testun Cymraeg yn nodi "... sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi)". Mae perygl y bydd darllenwyr yn dehongli'r testun Cymraeg i olygu bod yr esiamplau a grybwyllwyd yn "egluo" (explain) yn hytrach nag yn "dangos" (illustrate) y rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi. Gellir datrys y dryswch hwn drwy ddefnyddio'r gair "dangos" neu "enghreifftio" yn lle "egluo". Argymhellir bod y geiriad yn cael ei ddiwygio ar y cyfle cyntaf posibl. [Rheol Sefydlog 15.2 vi a vii]

Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-

Pwynt Adrodd 1:

Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai erthygl 1(1) fod wedi cyfeirio hefyd at erthygl 15(2). Serch hynny, mae erthygl 15(2) yn cael ei chychwyn â'r geiriau yn yr erthygl honno ei hun, sef: "Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r rhan honno o'r ddogfen Gymraeg sy'n dwyn y teitl ""Cymraeg ail iaith" i rym ar...""; mae erthygl 15(2) yn mynd yn ei blaen wedyn i nodi'r darpariaethau cychwyn ar gyfer yr erthygl hon. Yng ngoleuni hynny nid yw'r Llywodraeth yn credu bod y gwall yn erthygl 1(1) yn debyg o arwain at gamddealltwriaeth ond gwneir diwygiadau i erthygl 1(1) o'r Gorchymyn i gywiro'r hyn a hepgorwyd o erthygl 1(1) pan gaiff y Gorchymyn ei ddiwygio y tro nesaf.

Pwynt Adrodd 2:

Mae'r Llywodraeth yn cytuno. Nid yw'r Llywodraeth yn credu bod y gwall yn debyg o arwain at gamddealltwriaeth ond gwneir diwygiadau i'r Gorchymyn i gywiro'r gwall pan gaiff y Gorchymyn ei ddiwygio y tro nesaf.

Pwynt Adrodd 3:

Nid yw'r Llywodraeth yn cytuno. Un o'r ystyron a restrir yn y "New Shorter Oxford Dictionary" ar gyfer 'illustrate' yw "Make clear, elucidate, explain" a gellir gwneud hynny gydag enghreifftiau neu hebddynt, neu gallai gynnwys adroddiad disgrifiadol neu ddefnyddio darluniau a ffotograffau. Mae'r gair 'egluo' yn gweddu'n berffaith iawn i'r cysyniad hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Mehefin 2008